

Cyngor Therapi Galwedigaethol ar gyfer Sgiliau Bysellfwrdd

Mae defnyddio bysellfwrdd yn rhywbeth y mae plant a phobl ifanc yn gyffredinol gyfarwydd ag ef o oedran ifanc. Gall gallu defnyddio bysellfwrdd i deipio wrth gyffwrdd fod yn ddefnyddiol fel ffordd amgen o gofnodi gwaith, yn enwedig os yw ysgrifennu yn her. Ystyriwch faint y bysellfwrdd mewn perthynas â dwylo'r person ifanc, erbyn tua 7 oed efallai y bydd plentyn yn gallu defnyddio bysellfwrdd â dwy law yn gyfforddus.

Siaradwch ag ysgol eich plentyn am y cymorth y gallent ei ddarparu o ran sgiliau bysellfwrdd ac ystyriwch y pwyntiau yn y diagram isod.

Mae sgiliau cadarn yn cymryd amser i'w datblygu

Dysgwch nhw i
deipio geiriau go iawn

*Ymarfer
i lwyddo*



*Rhowch ddeunydd
sy'n hwyl iddyn nhw
ei deipio*

Anogwch osgo da, cymerwch seibiannau rheolaidd

Cywirdeb dros gyflymder

Mae ychydig o ganmoliaeth yn mynd yn bell

Dyma rai gwefannau sydd â gemau llawn hwyl a rhyngweithiol, ac ambell i wersi bysellwrdd y gall plant roi cynnig arnynt. Mae'r rhain i gyd ar gael am ddim ar-lein, byddwch hefyd yn dod o hyd i lawer mwy trwy chwilio am 'sgiliau teipio am ddim i blant'.

- www.typing.com mae hwn yn adnodd gwych ar gyfer dysgu bod yn gyfarwydd â bysellwrdd yn raddol. Mae'n ymgorffori gemau yn y gwahanol gamau hefyd, gan ei gadw'n hwyl. Os byddwch yn mewngofnodi gallwch arbed cynnydd eich plentyn wrth fynd ymlaen.
- www.typingclub.com
- www.kidztype.com
- www.thetypingcat.com
- www.freetypinggame.net

Cyngor gwych!

Ymarfer ychydig ac yn aml.

Cymysgwch gemau gyda gwersi teipio er mwyn dod yn gyfarwydd.

Ymarferwch deipio geiriau go iawn unwaith y bydd eich plentyn wedi dod yn fwy cyfarwydd â lle mae pob llythyren ar y bysellwrdd.